I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC22-32

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Gorfennaf 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12, 81, 82 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Awst 2022.

**Diwygio Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng nghyfarwyddyd 2—

(a) hepgorer y diffiniad o "Cyfarwyddiadau 2005";

(b) yn y diffiniad o "gweithiwr gofal iechyd proffesiynol" yn lle "Ddeddf Diwygio'r

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) 2010 Rhif 13, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002 (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd)" rhodder "Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**) (yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol)(**2**)";

(c) yn y diffiniad o "rhestr fferyllol", yn lle "4(1)(a)" rhodder "10(1)(a) a (b)";

(d) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol" rhodder—

"ystyr "Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol" ("*Pharmaceutical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**3**)";

(e) yn y diffiniad o "fferyllydd" yn y troednodyn i is-baragraff (a)(ii)—

(i) yn y testun Saesneg, yn lle "1998" rhodder "1968", a

(ii) yn lle "gan reoliad. 13 o Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Fferylliaeth) (Gogledd Iwerddon) 2008 (Rh.S. 2008/182); a chan O.S. 1976/1213 a 2007/289 a 3101" rhodder "a chan O.S. 2007/289, O.S. 2010/231 ac O.S. 2019/593";

(f) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "fferyllydd cofrestredig" ("*registered pharmacist*") yr un ystyr ag yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;";

(g) yn y diffiniad o "nyrs arbenigol" yn y troednodyn i is-baragraff (a) yn lle "2001/253" rhodder "2002/253, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/838; mae offeryn diwygio arall nad yw'n berthnasol i'r Cyfarwyddiadau hyn"; ac

(h) yn y diffiniad o "cyflenwr cyfarpar", yn lle "3(c)" rhodder "12(1)(a)(ii), 12(b) neu 12(c)".

(3) Yng nghyfarwyddyd 3(4)(a)—

(a) yn lle "Atodlen 4" rhodder "Atodlen 5", a

(b) yn lle "Atodlen 5" rhodder "Atodlen 6".

(4) Yng nghyfarwyddyd 4(5) yn lle "4 neu 5" rhodder "5 neu 6".

---

(**1**) 2002 p. 17.

(**2**) Newidiwyd enw'r Awdurdod i "yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol" ("*the Professional Standards Authority for Health and Social Care*") gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7).

(**3**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

(5) Yng nghyfarwyddyd 5(5)(a)—

(a) yn lle “Atodlen 4” rhodder “Atodlen 5”, a

(b) yn lle “Atodlen 5” rhodder “Atodlen 6”.

(6) Yng nghyfarwyddyd 6(7) yn lle “4 neu 5” rhodder “5 neu 6”.

(7) Hepgorer cyfarwyddydau 8 a 9.



**Llofnodwyd gan Andrew Evans, y Prif Swyddog Fferyllol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiedig: 29 Gorfennaf 2022**